Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Gwerthuso'r Arian Ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn 2013/14 ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Awst 2014

ISBN digidol 978 1 4734 2035 9
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22716

**Gwerthuso'r Arian Ychwanegol a roddwyd i Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn 2013/14 ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn**


## Crynodeb

- Ym mis Ionawr 2014, cysylltwyd â holl awdurdodau lleol Cymru i asesu'r galw tebygol am gynllun i ddarparu arian ychwanegol untro ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn.

- Prif amcanion yr arian oedd helpu rhagor o gwsmeriaid drwy gyfrwng y cynllun taliadau tai yn ôl disgresiwn ac i awdurdodau lleol ystyried dull mwy cyfannol o weinyddu'r taliadau hyn.

- Gwnaeth un ar bymtheg o awdurdodau lleol gais am arian a dyfarnwyd cyfanswm o £975,499 iddynt. O'r cyfanswm a ddyfarnwyd, gwariwyd £797,694 a dychwelwyd £177,804 i Lywodraeth Cymru.

- Defnyddiwyd yr arian gan mwyaf i ymestyn y taliadau i hawlwyr a oedd wedi cael eu gwrthod gynt, neu i roi cymorth i denantiaid symud i lety rhatach neu fwy priodol.

- Defnyddiwyd yr arian hefyd i ddarparu cymorth tymor byr er mwyn i bobl aildrefnu eu materion ariannol a/neu eu hamgylchiadau personol ac er mwyn i denantiaid anabl aros mewn eiddo a oedd wedi'i addasu'n sylweddol.

- Yn gyffredinol, roedd croeso i'r arian ychwanegol. Roedd rhai'n poeni ei fod yn dod yn rhy agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Oherwydd prinder amser a'r ffaith nad oedd modd trosglwyddo arian na phenderfyniadau i'r flwyddyn ariannol ddilynol, dychwelwyd rhywfaint o'r arian i Lywodraeth Cymru.

- Mae llawer o'r awdurdodau lleol wedi dweud eu bod yn bwriadu datblygu eu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i nifer fwy o'u cwsmeriaid sy'n cael taliadau tai yn ôl disgresiwn.

- Mae'r arian ychwanegol a'r telerau a oedd ynghlwm wrtho wedi helpu i sicrhau bod dull mwy cyfannol o weinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn a'u rhoi ar waith yn bwrw gwreiddiau yn y system.

## Y Cefndir

1. Ers mis Ebrill 2011, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn cyflwyno diwygiadau'n systematig i'r system les. Mae'r newidiadau wedi effeithio'n sylweddol ar bobl sy'n hawlio budd-dal tai yn y sector rhentu preifat ac o fis Ebrill 2013 ymlaen, ar y sector rhentu cymdeithasol yn sgîl cyflwyno'r dreth ystafell wely.

2. Nid yw budd-dal tai na thaliadau tai yn ôl disgresiwn wedi'u datganoli. Er mwyn helpu i liniaru effeithiau'r diwygiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynorthwyo awdurdodau lleol drwy ddarparu arian i Atal Digartrefedd ac i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

3. Ar gyfer y tair blwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £2.1 miliwn. Eleni (2014/15), mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu £300,000 ychwanegol er mwyn i awdurdodau lleol atal digartrefedd ar raddfa fwy cyffredinol ond roedd hefyd yn cynnwys help i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles. Y bwriad yw sicrhau bod rhagor o arian ar gael yn ddiweddarach eleni fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd ym maes digartrefedd ym mis Ebrill 2015.

4. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu arian ychwanegol i helpu pobl i ymdopi ag effeithiau niweidiol eu diwygiadau drwy'r cynllun taliadau tai yn ôl disgresiwn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y galw am y gronfa'n fwy na'r arian sydd ar gael i ymateb i'r holl geisiadau. A rhoi hyn yn ei gyd-destun, yn ystod 2013/14, rhoddwyd £7.1 miliwn i awdurdodau lleol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ond amcangyfrifwyd y byddai effaith y dreth ystafell wely'n unig oddeutu £23 miliwn[1].

5. Rhai o'r ffactorau sy'n gallu arwain at wneud pobl sydd mewn gwaith a phobl ddi-waith yn ddigartref yw'r economi, diwygiadau lles, colli swyddi a chostau byw cynyddol. Mae taliadau tai yn ôl disgresiwn yn chwarae rhan bwysig yn lliniaru'r effeithiau drwy roi cymorth yn ddi-oed i bobl y mae angen llety arnynt. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynorthwyo pobl i ymdopi ag effeithiau'r diwygiadau lles, darparwyd £1.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ategu'r arian sydd ar gael ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn.

6. Seiliwyd y ffordd o ddefnyddio'r arian ar y dull a ddatblygwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd i roi taliadau tai yn ôl disgresiwn ar waith. Mae manteision ychwanegol i hyn oherwydd y nod yw defnyddio'r arian yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r problemau sydd wrth wraidd amgylchiadau pobl er mwyn sicrhau newid hirdymor. Mae hyn yn helpu pobl i osgoi sefyllfa yn y dyfodol lle y bydd gofyn iddynt gael taliadau tai yn ôl disgresiwn eto.

## Methodoleg

[1][1] https://www.gov.uk/government/publications/number-of-housing-benefit-claimants-and-average-weekly-spare-room-subsidy-amount-withdrawal

7. Ym mis Ionawr 2014, cysylltwyd â phob awdurdod lleol i asesu'r galw posibl am gynllun ac i holi a fyddai modd defnyddio'r arian cyn 31 Mawrth 2014 (Atodiad 1).

8. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried eu harferion gweithio gyda golwg ar y system sydd ar waith yng Nghaerdydd. Darparwyd siart llif a oedd yn awgrymu sut y gallai dull cyfannol sicrhau bod llai o bobl yn hawlio taliadau tai yn ôl disgresiwn dro ar ôl tro.

9. Pennwyd y swm a gynigiwyd i'r awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r un gymhareb ag a ddefnyddia'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddyrannu ei thaliadau tai yn ôl disgresiwn hithau.

Tabl 1 - Dyraniad Dangosol*

| Awdurdod Lleol | £(dangosol) |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | £33,900 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | £59,000 |
| **Caerffili** | £61,800 |
| **Caerdydd** | £233,000 |
| **Sir Gaerfyrddin** | £59,300 |
| **Ceredigion** | £34,500 |
| **Conwy** | £51,300 |
| **Sir Ddinbych** | £45,900 |
| **Sir y Fflint** | £51,100 |
| **Gwynedd** | £51,000 |
| **Ynys Môn** | £28,800 |
| **Merthyr Tudful** | £26,300 |
| **Sir Fynwy** | £25,800 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | £67,200 |
| **Casnewydd** | £72,600 |
| **Sir Benfro** | £41,000 |
| **Powys** | £32,700 |
| **Rhondda Cynon Taf** | £95,300 |
| **Abertawe** | £100,300 |
| **Tor-faen** | £40,900 |
| **Bro Morgannwg** | £46,400 |
| **Wrecsam** | £41,800 |
| **Cyfanswm** | **£1,299,900** |

***Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf**

10. Ar 7 Ionawr 2014, cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol i drafod yr arian. Roedd rhai yn y cyfarfod yn poeni na fyddent yn gwneud cais am yr arian mae'n debyg oherwydd:-

    a. nad oedd digon o staff ar gael i weinyddu'r arian ychwanegol;
    b. na fyddai modd ailysgrifennu polisïau taliadau tai yn ôl disgresiwn lleol a'u cymeradwyo gan aelodau'r cyngor lleol mewn pryd;
    c. roedd awdurdodau lleol eisoes wedi ymrwymo arian ychwanegol i dalu am ddiffygion;
    d. cynnydd yn arian canol blwyddyn *statws gwledig* (Gwynedd, Ceredigion a Powys) gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
    e. roedd Conwy wedi gwneud cais am arian ychwanegol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ond heb gael ymateb. Dywedwyd y byddent yn gwneud cais am arian ond, petaent yn llwyddo i gael arian gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y byddent yn tynnu'r cais i Lywodraeth Cymru yn ôl.

11. Ni wnaeth pob awdurdod lleol ymateb i'r llythyr cychwynnol a hynny'n bennaf am un neu fwy o'r rhesymau a nodwyd uchod. Dywedodd y rheini a wnaeth ymateb y gallent ddefnyddio £1,024,000 o'r arian a oedd ar gael. Gofynnwyd i bob awdurdod amcangyfrif mewn ffordd realistig faint y gallai ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol oherwydd na fyddai modd trosglwyddo arian i'r blynyddoedd dilynol. Ar ôl i bob cais ddod i law, roedd tua £300,000 dros ben. Cytunwyd y gallai'r awdurdodau lleol a oedd eisoes wedi ymateb i'r cais gwreiddiol, wneud cais am arian ychwanegol. Gwnaeth Caerffili, Merthyr Tudful a Wrecsam gais llwyddiannus am arian ychwanegol.

12. Erbyn diwedd Ionawr 2014, roedd cyfanswm o £975,499 wedi’i ddyfarnu i un awdurdod lleol ar bymtheg. Er bod Conwy wedi gwneud cais yn wreiddiol, tynnodd ei gais yn ôl cyn dyfarnu'r arian terfynol oherwydd ei fod wedi cael arian canol blwyddyn ychwanegol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. (Gweler 10(e) uchod).

13. Un o'r gofynion ar gyfer yr arian oedd:-

    a. na fyddai ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn;
    b. y byddai gweithdrefnau'n cael eu hadolygu (gyda'r nod o gynnwys y dull a ddefnyddid yng Nghaerdydd yn y system), ac;
    c. y byddai'r cynllun yn cael ei werthuso, fel a ganlyn:-
        i. darparu gwybodaeth i ddweud sut y defnyddiwyd yr arian ychwanegol;
        ii. y profiad o fodelu dull Caerdydd
        iii. datblygiadau lleol eraill a gwaith arloesol y llwyddwyd i'w cyflwyno, ac:
        iv. unrhyw nodiadau/sylwadau ychwanegol.

## Canfyddiadau

Manylion am sut y defnyddiwyd yr arian ychwanegol

14. Gwariodd pob awdurdod lleol, ac eithrio un, eu cyllidebau taliadau tai yn ôl disgresiwn i gyd a gafwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. A hynny'n gefndir, defnyddiwyd yr arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru gan amlaf ar gyfer y canlynol:-

    a. ymestyn taliadau i'r rheini a oedd wedi cael eu gwrthod gynt h.y. ailystyried penderfyniadau blaenorol a swm y dyfarniadau a roddwyd gynt;
    b. darparu cymorth a fyddai fel arall wedi cael ei roi o gronfa gyffredinol y cyngor;
    c. rhoi cymorth i hawlwyr symud i lety rhatach neu i lety o faint mwy priodol drwy eu helpu gyda'r rhent ymlaen llaw, i dalu blaendal ar gyfer rhent neu am gostau mudo;
    d. lle bo hynny'n briodol, defnyddiwyd yr arian i glirio dyledion rhent os oedd hynny rhwystro tenantiaid rhag symud ymlaen.

15. Roedd hefyd yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn gallu:-

    a. galluogi pobl anabl a oedd yn byw mewn eiddo a oedd wedi'i addasu'n sylweddol i aros yn eu cartref;
    b. darparu cymorth tymor byr i roi amser i bobl aildrefnu eu materion ariannol (drwy roi cyngor iddynt am ddyledion neu gymorth cysylltiedig â threfniadau diwedd benthyciad);
    c. darparu cymorth tymor byr cyn unrhyw newid rhagweladwy/hysbys mewn amgylchiadau a fyddai'n golygu bod gan rywun hawl i ragor o i Fudd-dal Tai (e.e. geni plentyn, pen-blwydd plentyn yn 10 neu'n 16 oed).

Profiad o fodelu dull Caerdydd

16. Roedd y rhan fwyaf helaeth o'r awdurdodau lleol a wnaeth gais am gymorth gan y gronfa eisoes yn defnyddio dull 'brysbennu' wrth ymdrin â thaliadau tai yn ôl disgresiwn. Roedd dau awdurdod lleol heb wneud dim cynnydd yn y maes hwn oherwydd bod y llwyth gwaith mor drwm.

17. Dyma’r prif elfennau a gyflwynwyd yn adroddiadau’r awdurdodau lleol:-

    **Blaenau Gwent** - Roedd yn gallu ymdrin â 72 achos ychwanegol ac yn defnyddio dull brysbennu ar gyfer pob achos. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeirio pobl at gynllun Cymorth Dŵr Cymru, dyfarnu gostyngiad cartrefi cynnes SWALEC, cyfeirio pobl at gymorthfeydd Cyngor ar Bopeth i'r rheini yr oedd angen cyngor arnynt ynglŷn â chyllidebu / dyledion ac i'r prosiect Cynhwysiant Digidol i gael help i fynd ar lein.

    **Pen-y-bont ar Ogwr** - Roedd eisoes yn cynnig gwasanaeth wyneb-yn-wyneb i'r rheini y mae'r cap budd-daliadau'n effeithio arnynt. Cyn dyfarnu taliadau tai yn ôl disgresiwn, bydd y cwsmer yn cael cyngor am ddyledion/arian gan sicrhau cymaint o incwm ag sy'n bosibl. Cysylltodd y Gwasanaeth Budd-daliadau hefyd

â landlordiaid ac mae wedi llwyddo i negodi rhenti is o dan rai amgylchiadau. Rhoddwyd cymorth a chyngor i'r rheini a oedd wedi dod o hyd i waith sicrhau eu bod yn symud yn rhwydd o hawlio fel rhywun di-waith i hawlio fel rhywun mewn gwaith. *Hyrwyddwyd Cyfnewid Cartrefi Cymru* yn frwd. Felly, ychydig iawn o'r hawlwyr hyn a gafodd daliad tai yn ôl disgresiwn.

**Caerffili** - Mae'r dull a ddefnyddir yma'n debyg i ddull Caerdydd. Byddant yn cydweithio'n glos â chydweithwyr a rhanddeiliaid i lunio meini prawf sy'n gweddu i bawb. Mae ei swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith i dderbyn atgyfeiriadau er mwyn rhoi cymorth cyflym ym maes cyflogaeth. Bydd pawb sy'n hawlio taliadau tai yn ôl disgresiwn yn cael cymorth wyneb-yn-wyneb, hyrwyddir Cymorth Dŵr Cymru, cyfeirir pobl at wasanaeth Cyngor ar Bopeth (sy'n rhoi cyngor i denantiaid am ddyledion ac arian), cyngor arbenigol ar arbed ynni, cymorth arbenigol o fewn yr awdurdod (Teulu'n Gyntaf, Tîm o Amgylch y Teulu, a Chefnogi Pobl) a'r Cynllun Gwarantu Bond.

**Caerfyrddin** - Mae llawer o elfennau'r dull a ddefnyddir yng Nghaerdydd eisoes ar waith yng Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:

i. Cysylltiad clos rhwng yr Adran Budd-daliadau ac Adran Gwasanaethau Tai'r Cyngor, gan drawsgyfeirio pobl rhwng y Tîm Opsiynau Tai a'r swyddog Dyledion a Budd-daliadau (ariennir hyn ar y cyd gan Fudd-daliadau Tai);
ii. Proses cynasesu anffurfiol lle bydd uwch staff budd-daliadau'n hidlo achosion ac yn eu hadolygu mewn ffordd ragweithiol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn gywir;
iii. Bydd yr Uwch Swyddog Budd-daliadau sydd ar Ddyletswydd yn cyfweld â thenantiaid, yn cysylltu â landlordiaid, yn cyfeirio pobl at Opsiynau Tai / Cynghorydd Dyledion;
iv. Bydd y Gwasanaeth Budd-daliadau'n rhoi gwybodaeth a chymorth i landlordiaid yn y sector cymdeithasol ynglŷn ag achosion y Dreth Ystafell Wely i Swyddogion Tai a staff Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
v. Mae'n bosibl y rhoddir cyngor i denantiaid am atebion tymor hwy / parhaol a/neu fe'u cyfeirir at ddarparwyr cymorth a chyngor.

**Sir y Fflint** – Bydd yn asesu'r amgylchiadau mewn ffordd gyfannol ac yn y pen draw'n ceisio gweld a oes dewis amgen a chynaliadwy i aelwyd allu gwneud iawn am y diffyg yn y budd-dal tai a ddyfarnwyd iddynt. Dull brysbennu o fath yw *Porth Cyngor Sir y Fflint* ac fe ofynnir i'r gwasanaeth mwyaf effeithiol (perthnasol) gynorthwyo'r preswylydd yn ddi-oed.

**Ynys Môn** - Mae polisi'r awdurdod eisoes yn weddol debyg i fodel Caerdydd.

**Merthyr Tudful** - Mae dull Caerdydd yn debyg iawn. Mae'r broses ymgeisio'n seiliedig ar ganlyniadau h.y. rhoddir sylw i'r materion gwaelodol fel na fydd angen i bobl hawlio taliadau tai yn ôl disgresiwn yn y dyfodol.

**Mynwy** - Mae'n gweithio'n glos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i sicrhau eu bod yn adnabod y bobl sy'n gymwys wneud cais am gymorth yn ôl disgresiwn. Maent yn darparu gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau Cyngor /Opsiynau Tai a'r help sydd ar gael gan landlordiaid ynghyd â chymorth cyllidebu personol.

**Castell-nedd Port Talbot** - Mae'n seilio'i ddull ar atal yn y lle cyntaf ac yn y pen draw ar liniaru'r problemau sy'n arwain at anawsterau ariannol. Mae'n cytuno ar gynllun personol i helpu'r cwsmer i ddatrys yr anhawster ariannol y mae'n ei wynebu. Mae'n gwarchod grwpiau penodol rhag effaith y dreth ystafell wely drwy ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn h.y. pobl anabl mewn llety wedi'i addasu neu ofalwyr maeth sydd ag ystafelloedd ychwanegol a ddefnyddir gan blant maeth.

**Powys** – Dywedwyd bod sawl tebygrwydd rhwng model Caerdydd a model Powys. (Ni ddarparwyd manylion i ddangos pa nodweddion sy'n debyg.)

**Rhondda Cynon Taf** - Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau yn gweithio'n glos gyda rhanddeiliaid tai h.y. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol a Thîm Tai Sector Preifat y Cyngor i adnabod o'u cofnodion eu hunain y bobl hynny a allai fod yn gymwys i gael taliadau. Rhoddwyd gwybodaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn egluro manylion y cynllun i adlewyrchu dull Caerdydd (lle bo modd) fel a ganlyn:-

i. Y prif feini prawf i'w cyflawni yw atal rhagor o geisiadau am daliadau tai yn ôl y disgresiwn yn y dyfodol;
ii. Gellir mynd ati'n frwd i fynd ar drywydd y categorïau a ganlyn:-
    a) Y rheini sy'n symud i lety llai o faint priodol;
    b) Y rheini sydd â phroblemau dyled sy'n ceisio cyngor i reoli eu cyllidebau yn y dyfodol;
    c) Y rheini sy'n ceisio cyngor am reolaeth ariannol ac yn cynyddu eu hincwm gwario i dalu am unrhyw ddiffyg;
    d) Y rheini sydd ag arfer caethiwus ac yn ceisio help e.e. hapchwarae, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ati:
    e) Y rheini sydd ar y rhestr aros am dŷ llai o faint ac sydd o ddifrif yn ceisio lliniaru'r cyfyngiad.

**Abertawe** - Maent eisoes yn defnyddio dull tebyg i'r dull a ddefnyddir yng Nghaerdydd drwy weithio gyda'r Adran Dai ac â Chymdeithasau Tai i ddod o hyd i atebion mwy parhaol er mwyn osgoi'r "Dreth Ystafell Wely". Mae hyn yn cynnwys symud i lety arall, helpu gyda chostau mudo, *Cyfnewid Cartrefi*, cadw lodjar ac ati. Mae ganddynt Ganolfan Gynghori lle y bydd cyrff y trydydd sector a gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cynnal cymorthfeydd gan roi cyngor am dai, cyngor ariannol a chyngor am waith /hyfforddiant.

**Tor-faen** - Mae wedi gweithio'n arbennig o glos gyda Chymdeithas Tai *Bron Afon* fel rhan o brosiect arddangos taliadau uniongyrchol i sicrhau eu bod yn adnabod ymgeiswyr addas ar gyfer cael cymorth yn ôl disgresiwn er mwyn eu cynghori ynghylch pa wybodaeth y dylent ei chasglu. Maent wedi darparu gwybodaeth fanwl am wasanaethau Cyngor / Opsiynau Tai a'r help sydd ar gael gan landlordiaid gyda chymorth cyllidebu personol.

**Wrecsam** - Mae'r awdurdod yn sicrhau bod naill ai eu swyddog cyswllt budd-daliadau'n gwybod am gais am daliadau tai yn ôl disgresiwn neu fod un o Swyddogion Lles y Cymdeithasau Tai'n gwybod am hynny. Mae'r system yn golygu bod modd darparu Cyngor Ariannol / Cyngor am Gyllidebu neu Gymorth Lles ychwanegol. Drwy ddefnyddio trefn brysbennu, sicrhawyd bod ceisiadau am daliadau tai yn ôl disgresiwn yn fwy cywir a'u bod yn nodi'n llawn yr holl ffactorau perthnasol sy'n caniatáu i'r awdurdod wneud penderfyniad doethach a all fod o fudd i 'r cwsmer.

<u>Datblygiadau ac arloesi pellach.</u>

18. Mae'r ymatebion i hyn yn eithriadol o galonogol oherwydd bod llawer o'r awdurdodau lleol (gan gynnwys y ddau nad oeddent wedi gallu cyflwyno model Caerdydd) wedi awgrymu y byddant yn ystyried datblygu eu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer rhagor o'u cwsmeriaid sy'n cael taliadau tai yn ôl disgresiwn.

**Blaenau Gwent** - Byddai'n hoffi parhau â gwasanaeth brysbennu - a bwrw bod adnoddau'n caniatáu.

**Pen-y-bont ar Ogwr** - Roedd y cynghorydd yn arfer cael ei ariannu drwy gyfrwng Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru. Mae'n ariannu ei wasanaeth dyledion ei hun am gyfnod o ddeuddeng mis. Bydd hyn yn sicrhau bod y cymorth hwn yn parhau ac yn dal yn rhwydd cael gafael arno.

**Caerfyrddin** - Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau yn trafod system atgyfeirio ychwanegol sydd wedi'i hanelu at ffurfioli a gwella'r cyngor sydd ei angen i ddarparu atebion tymor hwy neu barhaol i hawlwyr. Byddai hawlwyr sy'n gwneud cais am daliadau tai yn ôl disgresiwn yn cael eu cyfeirio at *ganolbwynt newydd Un Sir Gâr* i gael cyngor wyneb-yn-wyneb gan gynnwys cymorth dros y ffôn, a chymorth ar y we i ddod o hyd i waith, hyfforddiant, gwirfoddoli (yn ogystal â chyngor am fudd-daliadau). Mae hyn yn cynnwys Rhaglen "ESGYN" (rhan o agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru) ac mae'n cynnwys partneriaid allweddol eraill gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cymunedau yn Gyntaf, *Yn Awyddus i Weithio*, Coleg Sir Gâr, *Workways* a Gyrfa Cymru. Bydd yn cynnig dull newydd a chyfannol o ddarparu atebion tymor hir i hawlwyr, ynghyd â'r posibilrwydd o gysylltu dyfarniadau taliadau tai yn ôl disgresiwn â chamau / canlyniadau cysylltiedig ag atgyfeirio, lle bydd hynny'n cael ei ystyried yn briodol i amgylchiadau'r hawlwyr.

**Sir y Fflint** - Bydd *Porth Cyngor Sir y Fflint*, pan fydd ar waith yn llwyr, ar gael i gydweithwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith. Bydd hyn yn golygu bod modd

cyfeirio'r rheini y mae angen cyngor a chymorth arnynt i fynd i'r afael â materion lles cymdeithasol sy'n eu rhwystro rhag paratoi ar gyfer gwaith/hyfforddiant, neu gael gafael arno.

**Ynys Môn** - Mae wedi addasu ei bolisi taliadau tai yn ôl disgresiwn a'i ffurflenni cais. Rhagwelir y bydd rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn deall y meini prawf dyfarnu'n well, ac felly y bydd llai o apeliadau neu geisiadau am daliadau tai yn ôl disgresiwn sydd heb fawr o siawns o lwyddo.

**Merthyr Tudful** - Gall rhai cynlluniau yn y dyfodol gynnwys - cynyddu ymwybyddiaeth o daliadau tai yn ôl disgresiwn a phroffilio cwsmeriaid i sicrhau eu bod yn helpu cynifer o bobl agored i niwed â phosibl. Mae hyn yn dibynnu ar yr ariannu yn y dyfodol oherwydd bod yr adnoddau yn yr Adran Budd-daliadau wedi'u tocio.

**Mynwy** - Mae'n cydweithio'n glos â'r tîm Opsiynau Tai er mwyn adnabod cleientiaid sy'n flaenoriaeth ac y mae gofyn iddynt gael cymorth ar ffurf rhent ymlaen llaw. Bydd y Cyngor yn helpu drwy roi rhent ymlaen llaw i'r sector rhentu preifat, fel nad oes yn rhaid i gwsmeriaid fynd i lety i bobl ddigartref. Mae'r cynllun cychwynnol hwn wedi bod yn llwyddiannus oherwydd bod cost cartrefu cleientiaid yn y llety hwn yn fwy cost-effeithiol na'r dewis arall.

**Castell-nedd Port Talbot** - Mae wedi sefydlu swydd a bydd deilydd y swydd honno'n trafod cynllun personol gyda'r hawlydd er mwyn lliniaru ei anawsterau ariannol a bydd yn sicrhau ei gytundeb i'r cynllun hwnnw. Gall hyn fod yn gyngor am gyllidebu, am symud i gartref arall, am waith ac ati. Un o'r arfau y bydd yr Awdurdod yn ei ddefnyddio yw'r taliad tai yn ôl disgresiwn, ond ni fydd yn defnyddio'r arf hwnnw ar ei ben ei hun. Mae'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**Powys** - Mae wedi datblygu system llwybr carlam i helpu pobl ddigartref sy'n symud i lety ar rent.

**Abertawe** - Adolygwyd pob achos lle y gwrthodwyd rhoi taliad tai yn ôl disgresiwn i hawlydd er mwyn sicrhau bod y broses benderfynu'n gyson. Mae'r ffurflen gais wedi cael ei hadolygu hefyd.

**Tor-faen** - Mae'n debyg i Fynwy oherwydd bod gan y ddau awdurdod lleol yr un rheolwr budd-daliadau. Maent yn helpu cwsmeriaid i ddatrys anawsterau'r dreth ystafell wely drwy edrych ar gynlluniau i ddarparu cymorth tymor byr (pan fydd cwsmeriaid yn dechrau gweithio) i'r rheini sy'n economaidd weithgar - mae'r syniadau'n dal i gael eu datblygu yn ystod 2014-15**.**

**Wrecsam** - Defnyddiwyd yr arian ychwanegol i helpu pobl â'u costau mudo wrth iddynt symud i eiddo llai fel nad oeddent yn gorfod wynebu'r cyfyngiadau ystafell sbâr. Rhoddwyd cymorth hefyd i gwsmeriaid a oedd yn awyddus i symud o'r Sector Cymdeithasol at landlord preifat. Mae'n adolygu'n gyson sut y gall ddarparu cymorth i gwsmeriaid er mwyn eu helpu i liniaru eu sefyllfa

ariannol a gwella'u hamgylchiadau. Gall hyn fod yn help tra byddant yn disgwyl symud i lety llai neu'n gymorth ar ôl i gwsmer ddechrau gwaith rhan-amser.

<u>Nodiadau/sylwadau ychwanegol.</u>

19. Cwblhawyd yr adran hon gan 12 o'r 16 awdurdod lleol a gafodd yr arian ychwanegol. Roedd y rheini a ymatebodd ar y cyfan yn croesawu'r arian ychwanegol. Roedd pedwar awdurdod lleol yn dweud eu bod yn poeni rhywfaint ei fod wedi dod yn rhy agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan ei gwneud hi'n anodd i naw awdurdod lleol wario'r dyraniad llawn. Dywedodd rhai eu bod yn awyddus, petai arian ar gael eto yn y dyfodol, iddo gael ei ddarparu'n gynharach yn y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, a barnu ar sail yr ymatebion, roedd croeso i'r arian ychwanegol hwn a gwell hwyr na hwyrach oedd y farn.

**Pen-y-bont ar Ogwr** - Trefnodd ei Fwrdd Gwasanaethau Lleol nifer o seminarau ar gyfer cyrff cyfryngol i'w gwneud yn fwy ymwybodol ymlaen llaw o'r Diwygiadau Lles a'r opsiynau sydd ar gael i denantiaid y bydd hyn yn effeithio arnynt h.y. symud i gartref arall, dechrau gweithio, cynyddu oriau ac ati. Rhoddwyd cyflwyniadau gan staff Budd-dal Tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau a chynhaliwyd sesiwn holi ac ateb gan banel a oedd yn cynnwys Cyngor ar Bopeth, Undeb Credyd, Opsiynau Tai, Cyngor Lles Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac eraill. Daeth dros 500 i'r seminarau ac mae rhagor o sesiynau yn yr arfaeth.

**Caerdydd** - Petai'r arian wedi bod ar gael yn gynharach, gellid bod wedi datblygu cynllun gwario mwy rhagweithiol a byddai'r arian wedi gallu cael ei ddosbarthu'n well.

**Caerfyrddin** - Roedd polisi'r Cyngor yn ddigon hyblyg er mwyn gallu ailystyried dyfarniadau sydd wedi'u gwneud eisoes. Fodd bynnag, sylweddolir y gall yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan Lywodraeth Cymru fod ar gael yn ddirybudd, ac mai gwaith pob parti oedd cydweithio er mwyn ei ddefnyddio yn y ffordd orau.

**Sir y Fflint** - Yn yr ardal hon, mae credyd cynhwysfawr ar gael (Shotton), ac mae trafodaethau ar y gweill â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn i *Borth Cyngor Sir y Fflint* gael ei ddefnyddio'n fecanwaith i rywun sy'n hawlio credyd cynhwysfawr allu cael gafael yn gyflym ac yn ddidrafferth ar y cymorth TG a'r cymorth cyllidebu personol sydd ei angen arnynt er mwyn hawlio'u credyd cynhwysfawr a'i gynnal.

**Ynys Môn** - Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod yr arian ar gael mor hwyr a'r diffyg hyblygrwydd o ran methu â throsglwyddo tanwariant i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Roeddent yn poeni y gallai'r tanwario hwn beri i rywun dybio bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i ymateb i'r holl alw am daliadau tai yn ôl disgresiwn.

**Merthyr Tudful** - Mae'r broses ddyfarnu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r broses atgyfeirio'n gweithio'n dda a bydd cyfarfodydd rheolaidd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn parhau â'r dull di-fwlch hwn o helpu cwsmeriaid.


**Abertawe** - Roedd yr arian ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y Cyngor hwn wedi gallu dyfarnu 370 yn ychwanegol o daliadau tai yn ôl disgresiwn.

**Wrecsam** - Er bod yr awdurdod yn siomedig na wnaeth wario'i ddyfarniad llawn, roedd yn sicrhau bod yr holl geisiadau'n cael eu trin yn yr un modd ac ni newidiodd ei feini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau yn sgîl cael arian ychwanegol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn fodlon bod defnyddio'r arian ychwanegol hwn wedi golygu bod modd dyfarnu rhagor o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan helpu i liniaru goblygiadau'r diwygiadau lles. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, defnyddiwyd y gronfa hon i helpu i sicrhau bod llai o gwsmeriaid yn gwneud cais dro ar ôl tro yn y dyfodol.

**Crynodeb**

20. O'r cyfanswm a ddyfarnwyd (£975,500), gwariwyd £797,700 a dychwelwyd £177,800 i Lywodraeth Cymru. Llwyddodd saith awdurdod lleol i ddefnyddio'u dyfarniad i gyd - Caerdydd, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Abertawe a Thor-faen. (Tabl a Graff 2 - Dyraniad, Gwariant a Dychweliadau).

<u>Graff 2 - Dyraniad, Gwariant a Dychweliadau</u>




Tabl - Dyraniad, Gwariant a Dychweliadau*

| Awdurdod Lleol | Dyfarnwyd | Defnyddiwyd | Dychwelwyd |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | £33,900 | £9,900 | £24,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £30,000 | £21,100 | £8,900 |
| Caerffili | £63,000 | £30,200 | £32,800 |
| Caerdydd | £232,900 | £232,900 | £0 |
| Sir Gaerfyrddin | £59,300 | £59,100 | £200 |
| Sir y Fflint | £51,000 | £51,000 | £0 |
| Ynys Môn | £28,800 | £12,300 | £16,500 |
| Merthyr Tudful | £30,000 | £30,000 | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | £25,800 | £19,600 | £6,200 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | £67,200 | £67,200 | £0 |
| **Sir Benfro** | £40,000 | £0.00 | £40,000 |
| **Powys** | £32,000 | £32,000 | £0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | £95,300 | £68,900 | £26,400 |
| **Abertawe** | £100,300 | £100,300 | £0 |
| **Tor-faen** | £40,900 | £40,900 | £0 |
| **Wrecsam** | £45,000 | £22,200 | £22,800 |
| **Cyfanswm** | **£975,400** | **£797,600** | **£177,800** |
| ***Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf** | | | |

21. Defnyddiodd un awdurdod lleol ar ddeg 50 y cant neu ragor o'u dyfarniad.

22. Dywedodd Sir Benfro, ... *er iddynt wneud eu gorau glas na wnaethant lwyddo i ddefnyddio dim o'r arian a ddarparwyd...* Mae'r ystadegau a gafwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod Sir Benfro wedi methu â gwario'u dyraniad taliadau tai yn ôl disgresiwn i gyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan danwario oddeutu £4,000.

23. Prif amcan yr ariannu oedd helpu rhagor o gwsmeriaid drwy gyfrwng y cynllun taliadau tai yn ôl disgresiwn ac i awdurdodau lleol ystyried dull mwy cyfannol o weinyddu'r taliadau hyn.

24. Nid oedd pob awdurdod lleol yn cyfrif nifer y cwsmeriaid ychwanegol a helpwyd gyda'r arian ychwanegol. Cyfrifodd Blaenau Gwent, Caerdydd, Caerfyrddin, Sir y Fflint ac Abertawe faint o cwsmeriaid a oedd wedi cael cymorth ariannol.

<u>Tabl 3 - Nifer y cwsmeriaid a helpwyd gydag arian ychwanegol Llywodraeth Cymru.</u>

| Awdurdod Lleol | Nifer |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 72 |
| **Caerdydd** | 372 |
| **Caerfyrddin** | 270 |
| **Y Fflint** | 57 |
| **Abertawe** | 370 |
| **Cyfanswm** | **1141** |

25. Er bod Caerdydd yn cael ei weld yn esiampl dda, mae llawer o'r awdurdodau lleol a gafodd arian ychwanegol eisoes yn defnyddio dull cyfannol, a

rhanddeiliaid yn chwarae rhan bwysig yn helpu cwsmeriaid i oresgyn problemau gwaelodol.

26. Mae'r rheini nad oedd ganddynt systemau ar waith wedi dweud y byddant yn newid eu harferion gweithio eleni ac yn ystyried dulliau o estyn allan a helpu rhagor o gwsmeriaid.


27. Yn ogystal â'r gwerthusiad hwn, cysylltodd swyddogion ag 19 o'r 22 awdurdod lleol i gael gwybod pam na wnaethant ymgeisio am gyfran o'r £20 miliwn o arian ychwanegol canol blwyddyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Crybwyllwyd arian Llywodraeth Cymru yn rheswm dros beidio â gwneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau:-

   a. *Wrth gael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2014, nid oedd angen bellach i'r Cyngor wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau o'i chronfa wrth gefn - cais a allasai fethu.*

   b. *Ni ddaeth yn amlwg tan yn ystod chwarter olaf 2013/14, pan gynyddodd ceisiadau 50% o'u cymharu â chwarteri blaenorol, y byddent yn gorwario. Gwnaethpwyd cais am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn bryd hynny.*

28. Roedd swm rhesymol o'r arian ychwanegol a ddarparwyd heb ei wario. Darparwyd £1.3 miliwn yn y lle cyntaf a defnyddiwyd £797,600 - gwahaniaeth o £502,400. Dywedodd swyddogion Ynys Môn na ddylid tybio bod unrhyw danwario yn golygu bod cyfanswm yr arian (Llywodraeth Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau) yn ddigonol i ddiwallu anghenion pawb. Y rheswm dros ddychwelyd arian oedd nad oedd modd trosglwyddo'r arian ychwanegol i flwyddyn 2014/15 a bod yr arian ychwanegol wedi cyrraedd mor hwyr yn y flwyddyn ariannol.

<u>Tabl 4 - Cyfanswm y gwariant gan awdurdodau lleol Cymru.</u>



## Casgliad

29. Disgwylid y byddai'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn gwneud cais am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru oherwydd y pwysau ar y gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn. Daeth yn amlwg bod nifer o resymau lleol dros beidio â gwneud cais.

30. Roedd llawer yn ddiolchgar am y cymorth ychwanegol am nad oedd yr arian a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'n ddigon i ymateb i'r cynnydd yn y galw - yn enwedig yn sgîl y dreth ystafell wely.

31. Roedd naw awdurdod lleol wedi methu â defnyddio'r arian ychwanegol i gyd. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd yr arian ond ar gael tan tua diwedd y flwyddyn ariannol ac oherwydd nad oedd modd trosglwyddo'r tanwariant i'r flwyddyn ariannol ddilynol na throsglwyddo penderfyniadau i ddyfarnu arian. At hynny, roedd gofyn i rai ddiweddaru eu polisïau taliadau tai yn ôl disgresiwn lleol er mwyn adlewyrchu'r arian ychwanegol. Yn ei dro, bu'n rhaid i aelodau'r cyngor lleol ddilysu hyn. Unwaith eto, roedd hyn yn golygu bod ganddynt lai o amser i ddefnyddio'r arian.

32. Ni ddylid tybio bod unrhyw danwario'n golygu bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i ddiwallu'r angen i gyd. Mae'r arian ychwanegol wedi'i ddefnyddio'n dda yn yr awdurdodau lle y'i defnyddiwyd.

33. Mae'r rhyngweithio rhwng awdurdodau lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi golygu cydweithio mwy clos a gwell dealltwriaeth o'r problemau a'r materion dan sylw.

34. Mae gan lawer o awdurdodau lleol systemau ar waith sy'n debyg i'r rheini a ddilynir yng Nghaerdydd. Mae'r cynllun hwn wedi arwain at ymrwymiad gan lywodraeth leol i weithio tuag at gysoni arferion gweithio. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae deunaw o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithio gyda chynllun a elwir yn Glwb Diwygio Lles i gytuno ar brotocolau cyffredin drwy Gymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yn cynnig arian ychwanegol ar gyfer Atal Digartrefedd a gobeithir y bydd y pedwar awdurdod lleol sy'n weddill yn cefnogi'r strategaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys yr awdurdodau lleol hynny na wnaethant gais am yr arian hwn.

35. Dywedodd Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot ei fod yn amddiffyn pobl anabl mewn llety sydd wedi'i addasu, fel mater o drefn, a gofalwyr maeth hefyd sydd ag ystafelloedd ychwanegol a ddefnyddir ar gyfer plant sy'n cael eu maethu.

36. Dywedodd awdurdod lleol Abertawe ei fod yn disgwyl i denantiaid helpu eu hunain. Disgwylir i denantiaid ddangos pa gamau y maent wedi'u cymryd gyda'u landlord a'r gwasanaethau cynghori a gynigir gan y Cyngor i ddod o hyd i ateb mwy parhaol.

37. Nod yr arian oedd helpu rhagor o gwsmeriaid yn ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn eu cartrefi a'u bod yn defnyddio dull mwy cyfannol a chyson o

weinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn. Gwyddom yn sicr fod 1141 o bobl ychwanegol wedi cael help, ar sail y wybodaeth a roddwyd gan awdurdodau lleol a oedd wedi cyfri'r nifer. Roedd un-ar-ddeg o'r 16 awdurdod lleol heb ddarparu niferoedd a chredir bod y nifer a gafodd help yn uwch o lawer. Mae'r chwistrelliad o arian ychwanegol a'r telerau ar gyfer ei roi wedi helpu i sicrhau bod dull mwy cyfannol o weinyddu a rhoi taliadau tai yn ôl disgresiwn yn bwrw gwreiddiau.

38. Mae'n ymddangos, felly, fod prif amcanion yr ariannu wedi'u cyflawni, er bod yr amser a oedd ar gael i'r awdurdodau ei ddefnyddio'n brin.

**Atodiad 1**

Copi o'r llythyr gwreiddiol at yr awdurdodau lleol - Ionawr 2014

At: Prif Swyddogion Tai Awdurdodau Lleol

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date Ionawr 2014

Annwyl Gyfaill

**Gwerthuso'r Arian Ychwanegol ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn: 2013-14**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi cyfle ichi wneud cais am arian ychwanegol i helpu pobl yn eich ardal i ymdopi ag effeithiau'r diwygiadau lles. Er bod y diwygiadau y tu hwnt i'n rheolaeth ni, rydym yn dal i boeni am yr effaith y maent yn eu cael ar bobl drwy Gymru. Mae'r gwaith y mae awdurdodau lleol ac eraill wedi'i wneud i liniaru'r effeithiau eisoes wedi helpu llawer o bobl ac mae'n dal i wneud hynny. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen amlasiantaeth o dan arweiniad Llywodraeth Cymru wedi ystyried pa gamau i'w cymryd yn y dyfodol ac wrthi'n cwblhau ei adroddiad.

Wrth ystyried effaith y dreth ystafell wely'n benodol, mae'n amlwg bod llawer o denantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol yn troi'n reddfol at y Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn gwneud iawn am y diffyg yn eu hincwm. Felly, yn aml, nid oes digon o arian ar gael i helpu ym mhob achos o galedi. At hynny, anaml y bydd tenantiaid yn defnyddio'r cyfnod pan gânt gymorth gan y Gronfa i fynd i'r afael â'r problemau sydd wrth wraidd eu trafferthion, ac mae hyn wedyn yn golygu eu bod yn gwneud cais dro ar ôl tro.

Er mwyn sicrhau bod digon o help ar gael i bobl y mae angen cymorth arnynt gan y Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, rwy'n falch iawn o ddweud bod Llywodraeth Cymru yn darparu £1.3 miliwn o arian ychwanegol i'w ddefnyddio hyd at 31 Mawrth 2014 a chan gynnwys y dyddiad hwnnw. Cymorth untro yw hwn. Byddai'n defnyddio arian Tai ac Adfywio sydd heb ei ymrwymo ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol hon.

Dim ond ar gyfer cymorth y gellir ei ddarparu o dan y Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn y ceir defnyddio'r arian a dim ond yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon. Rwy'n eich gwahodd i ystyried a allech ddefnyddio arian

ychwanegol at y diben hwn ac os felly, faint y gallech ei ddefnyddio. Amgaeir dyraniadau dangosol (Atodiad A) i'ch helpu i ystyried eich cais. Bydd lefel unrhyw ddyfarniadau'n dibynnu ar gyfanswm yr holl geisiadau. A dibynnu ar y galw, fe allai fod yn bosibl darparu arian ychwanegol er mwyn defnyddio unrhyw weddill sydd dros ben hyd at y cyfanswm, sef £1.3 miliwn

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio'n gwybod am rai arferion gweithio ardderchog ac arloesol sydd wedi'u mabwysiadu gan awdurdodau lleol a'u partneriaid. Un o'r rhain yw'r dull y mae Caerdydd yn ei ddefnyddio. Mae'n creu argraff, nid yn unig am ei fod yn darparu cymorth mawr ei angen, ond ei fod hefyd yn ceisio helpu pobl i ganfod atebion i’r problemau sydd wrth wraidd eu trafferthion. Mae'r Gweinidog yn awyddus i weld y dull hwn yn cael ei ymestyn drwy Gymru.

Amgaeaf fanylion y dull a fabwysiadwyd gan Gaerdydd (Atodiad B). Felly, wrth ichi baratoi unrhyw gais am arian, ac os nad ydych eisoes yn defnyddio’r dull hwn, gallwch esbonio sut y byddech yn mynd ati, fel na fyddai'n rhaid i bobl ofyn am gymorth eto yn y dyfodol gan y Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ac yn ogystal â rhoi manylion i Lywodraeth Cymru am sut y byddwch wedi defnyddio unrhyw arian ychwanegol, gofynnir ichi wedyn roi adroddiad cryno am yr hyn a wnaethoch chi a sut y gwnaeth pethau weithio'n ymarferol o ran eich profiad o fodelu dull Caerdydd. Bydd hefyd yn rhoi cyfle ichi gofnodi unrhyw gamau datblygu ac arloesi eraill a gyflwynwyd gennych. Defnyddir y wybodaeth yn sail ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ac er mwyn lledaenu arferion da.

Erbyn canol mis Ionawr, bydd angen i fy nhîm a minnau fod mewn sefyllfa i benderfynu faint o'r £1.3 miliwn y gellir ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, bydd angen imi gael eich ymateb erbyn 14 Ionawr 2014 fan hwyraf. Dylech ddweud faint o'r arian hwn rydych chi'n ei geisio ac y gallwch ei ddefnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, gan roi nodyn byr i esbonio sut y byddwch yn ei ddefnyddio. Er fy mod yn sylweddoli y gall fod yn anodd rhagweld union lefel y galw am gymorth, rhaid imi bwysleisio pa mor bwysig yw bod mor gywir â phosibl oherwydd fy mod yn dymuno osgoi sefyllfa lle bydd arian sydd wedi'i neilltuo'n benodol ar eich cyfer i ddarparu rhagor o gymorth wedi'i danwario pan ddaw'n ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ac ystyried eich llwyddiant wrth ddatblygu’r rhaglen *Troi Tai'n Gartrefi*, ei rhoi ar waith a gwario arni, rwy'n ffyddiog y byddwch yn gallu defnyddio'r arian ychwanegol yn dda.

Er mwyn ei gwneud mor hawdd â phosibl ichi gyflwyno cais am arian, rhoddir Atodiad C gyda'r llythyr hwn, sef ffurflen arbennig at y diben. Fe'i darparwyd ar ffurf dogfen ar wahân er mwyn ei gwneud yn haws ichi ei chadw a'i chyflwyno'n electronig. Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar y ffurflen ei hun. Os nad ydych am dderbyn y cynnig hwn ac nad oes angen arian ychwanegol arnoch chi, byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod inni.

Anfonwch eich ymateb at karl.thomas@wales.gsi.gov.uk (karl.thomas@wales.gsi.gov.uk). Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y

llythyr hwn a'r cynnig arian, cysylltwch â Karl Thomas (01597 828283) neu â Tim Margetts (tim.margetts@wales.gsi.gov.uk); 0300 062 5106).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth at y Prif Weithredwyr ac at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yn gywir



Ceri Breeze
Pennaeth Polisi Tai

cc Prif Weithredwyr, Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Atodiad A**

## Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;

## Awdurdodau lleol
## Lefelau ariannu ychwanegol dangosol

| Awdurdod Lleol | £(dangosol) |
|---|---:|
| Blaenau Gwent | £33,855 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £58,962 |
| Caerffili | £61,813 |
| Caerdydd | £232,947 |
| Sir Gaerfyrddin | £59,330 |
| Ceredigion | £34,518 |
| Conwy | £51,272 |
| Sir Ddinbych | £45,884 |
| Sir y Fflint | £51,149 |
| Gwynedd | £50,988 |
| Ynys Môn | £28,844 |
| Merthyr Tudful | £26,313 |
| Sir Fynwy | £25,769 |
| Castell-nedd Port Talbot | £67,197 |
| Casnewydd | £72,645 |
| Sir Benfro | £40,971 |
| Powys | £32,740 |
| Rhondda Cynon Taf | £95,341 |
| Abertawe | £100,320 |
| Tor-faen | £40,896 |
| Bro Morgannwg | £46,400 |
| Wrecsam | £41,846 |
| | **£1,300,000.00** |

**Atodiad B**

## Crynodeb o Ddull Caerdydd

1. Pan gyflwynir hawliad am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu ar unwaith â'r cwsmer i ddeall ei sefyllfa.

   Gwasanaeth Brysbennu - Y ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â'r cyhoedd yw drwy ymwneud â phobl wyneb-yn-wyneb. Ar ôl brysbennu, argymhellir y cam gweithredu nesaf;-

   dyfarnu taliadau tai yn ôl disgresiwn am gyfnod penodol gan roi cyfle i'r tenant gael amser i ddod o hyd i ateb parhaol:-

   - symud i eiddo llai/rhatach, a/neu
   - gael cyngor am arian/dyledion; a/neu
   - cyfraniad gan y tîm opsiynau tai; a/neu
   - drosglwyddo i'r Gronfa Gymorth yn ôl Disgresiwn; a/neu
   - cyngor a chymorth ariannol; a/neu
   - drafodaeth â'r landlord.

2. I'r rheini sy'n dewis peidio ag ymgysylltu â'r drefn hon, ystyrir eu hawliad yn ôl ei haeddiant unigol, ond mae'n bosibl na roddir taliad arall os na all y tenant brofi ei fod wedi ymdrechu i ddatrys ei broblemau;

3. Nid yw adrannau budd-dal tai'n gallu gweithio ar eu pen eu hunain a byddai angen iddynt gydweithio'n glos â chydweithwyr/rhanddeiliaid. Gallai'r rhain yn cynnwys;

   a. Timau opsiynau tai - mynediad at gronfeydd atal digartrefedd sy'n cael eu defnyddio i glirio dyledion rhent er mwyn i denant allu symud ymlaen, i helpu gyda chostau mudo, bondiau a blaendaliadau; cyngor am dai amgen, gosod tai cymdeithasol ac ati.

   b. Cydweithwyr ariannol - golwg gyffredinol ar y gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn; cysylltu â'r Gronfa Deulu a'r Gronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn (Cronfa Gymdeithasol ) - taliadau ar ffurf talebau ac ati.


   c. Gwasanaethau cyngor ariannol - sy'n darparu eddalwedd TG defnyddiol i awdurdodau lleol am ddim, a bydd eu swyddogion yn darparu cyngor ariannol;

   d. Landlordiaid - gallant ddarparu manylion am ddyledion tenantiaid, opsiynau tai amgen, cyfnewid gwybodaeth rhwng ei gilydd a chyfrannu at ddarparu rhestr o bobl sy'n flaenoriaeth ar gyfer symud i eiddo llai.

   e. Y trydydd sector - fel rheol, gweithwyr allweddol sy'n gallu darparu tystiolaeth gefnogol ar ran tenant na all ymdrin â'i faterion ei hun.

f. Cyfnewid Cartrefi Cymru neu Homeswapper

g. Tîm budd-dal tai/cyngor lles - Sicrhau'r holl fudd-daliadau sy'n ddyledus




Y nod cyffredinol yw:-

- mynd i'r afael â phroblemau gwaelodol tenantiaid unigol;
- lleihau'r galwadau pellach ar y gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn - sicrhau bod llai o bobl yn ymgeisio dro ar ôl tro;
- cyflwyno trefn fwy cyson ar gyfer prosesu hawliadau.

---